**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

At: Cyng Ian Roberts (Arweinydd)

Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Paul Johnson, Christine Jones and Billy Mullin

Dydd Mercher, 7 Gorffennaf 2021

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**CABINET**
**DYDD MAWRTH, 13EG GORFFENNAF, 2021 10.00 AM**

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd ‘presenoldeb’ wedi’i gyfyngu i Aelodau’r Pwyllgor a’r Aelodau hynny o’r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw’r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o’r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o’r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiada chynghori’s Aelodau yn unol a hynny.

3 **COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd ar 15 Mehefin 2021.

YSTRID YR ADRODDIADAU CANLYNOL

**ADRODDIAD STRATEGOL**

4 **SIR Y FFLINT DIGIDOL** (Tudalennau 15 - 54)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau

**Pwrpas:** Adolygu a diweddaru Strategaeth Ddigidol bresennol y Cyngor, gan ystyried llwyddiannau, newidiadau a dyheadau.

5 **AROLYGIAETH GOFAL CYMRU – CANLYNIADAU YMWELIAD SICRWYDD** (Tudalennau 55 - 76)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pwrpas:** Nodi canlyniad Ymweliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a chymeradwyo'r ymateb a'r cynllun gweithredu.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 77 - 124)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pwrpas:** Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol.

7 **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2022/23** (Tudalennau 125 - 132)

Adroddiad Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet dros Gyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael

**Pwrpas:** Cyflwyno'r amcangyfrif cyntaf ar gyfer gofynion y gyllideb ar gyfer 2022/23 a'r strategaeth o ran cyllido'r gofynion.

**ADRODDIAD GWEITHREDOL**

8 **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2020/21 (CANLYNIADAU)** (Tudalennau 133 - 164)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet dros Gyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael

**Pwrpas:** Cyflwyno gwybodaeth fonitro canlyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2020/21.

9 **MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2020/21 (SEFYLLFA DERFYNOL)** (Tudalennau 165 - 192)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet dros Gyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael

**Pwrpas:** Cyflwyno'r wybodaeth am Sefyllfa Derfynol Rhaglen Gyfalaf 2020/21.

10 **DANGOSYDDION DARBODUS – GWIRIONEDDOL 2020/21** (Tudalennau 193 - 198)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet dros Gyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael

**Pwrpas:** Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ynghylch gwir Ddangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2020/21 o'i gymharu â'r amcangyfrifon a bennwyd o ran Darbodusrwydd a Fforddiadwyedd.

11 **2021/22 MONITRO CYLLIDEB REFENIW (INTERIM)** (Tudalennau 199 - 208)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet dros Gyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael

**Pwrpas:** Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r risgiau allweddol a'r problemau sy'n hysbys o ran sefyllfa derfynol y gyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai.

12 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL O FFIOEDD A THALIADAU 2021** (Tudalennau 209 - 224)

Adroddiad Prif Weithredwr - Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau

**Pwrpas:** Cyflwyno'r adolygiad blynyddol o ffioedd a thaliadau ar gyfer 2021, gan gynnwys rhestr wedi'i diweddaru o ffioedd a thaliadau.

13 **GORFODAETH GWASTRAFF WRTH OCHR Y BIN AC YMWYBYDDIAETH AMGYLCHEDDOL** (Tudalennau 225 - 276)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Aelod Cabinet dros Strydlun

**Pwrpas:** Gorfodaeth Gwastraff Wrth Ochr y Bin ac Ymwybyddiaeth Amgylcheddol.

14 **Y DIWEDDARAF AM DDIWYGIO'R GYFUNDREFN LES** (Tudalennau 277 - 290)

Adroddiad Prif Swyddog (Tai ac Asedau) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau

**Pwrpas:** I gyflwyno diweddariad ar effaith Diwygio'r Gyfundrefn Les ar breswylwyr Sir y Fflint.

15 **INCWM RHENT TAI** (Tudalennau 291 - 298)

Adroddiad Prif Swyddog (Tai ac Asedau) - Aelod Cabinet dros Dai

**Pwrpas:** Cyflwyno sefyllfa derfynol diwedd y flwyddyn ar gyfer 2020/21 a diweddariad gweithredol ar gasglu rhent a lefelau dyledion presennol ar gyfer 2021/22.

16 **FFIOEDD GWRESOGI ARDALOEDD CYMUNEDOL 2021/22** (Tudalennau 299 - 302)

Adroddiad Prif Swyddog (Tai ac Asedau) - Aelod Cabinet dros Dai

**Pwrpas:** Argymell y ffioedd gwresogi arfaethedig yn eiddo'r cyngor gyda systemau gwresogi ardaloedd cymunedol ar gyfer 2021/22 cyn cael cymeradwyaeth y Cabinet.

17 **YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG** (Tudalennau 303 - 304)

**Pwrpas:** Darpau manulion y camau a gymerwyd o dan bewrau.

**RHAGLAN GWAITH I'R DYFODOL - Y CYNGOR SIR, CABINET, PPWYLLGOR ARCHWILIO A'R WYLLGOR TROOLWG A CHRAFFU - ER GWYBODAETH**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion contractau arfaethedig ac mae budd y cyhoedd mewn dal y wybodaeth yn ôl yn gorbwyso budd y cyhoedd mewn datgelu nes bod y contractau wedi'u dyfarnu.

18 **TEULUOEDD YN GYNTAF – CYLLID CONTRACT 2022/2024** (Tudalennau 341 - 348)

Adroddiad Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg

**Pwrpas:** Cais i gymeradwyo Caffael ar gyfer Gwasanaethau Teuluoedd Yn Gyntaf 2022/24.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home